Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Larymau Carbon Monocsid

## Adroddiad ar beth mae pobl wedi ei ddweud



Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Crynodeb o Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth ar gyfer yr ymgynghoriad ar Larymau Carbon Monocsid.**’

**Ebrill 2024**

# Sut i ddefnyddio'r adroddiad yma

Dyma adroddiad hawdd ei ddeall. Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 20**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:** enquiries.brconstruction@llyw.cymru

**Ffôn:** 0300 062 8144

Mae'r adroddiad yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247**.

# Cynnwys

**Am yr adroddiad yma ........................................................................ 4**

**Beth mae pobl wedi ei ddweud ......................................................... 5**

Mannau eraill ........................................................................ 7

Ystafelloedd gwely ac ystafelloedd byw .............................................. 9

Poptai ........................................................................ 11

Pethau eraill i feddwl amdanyn nhw .............................................. 12

Costau ........................................................................ 14

**Beth fydd yn digwydd nesaf ........................................................ 19**

**Geiriau Anodd ........................................................................ 20**

# Am yr adroddiad yma



Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethon ni ofyn i bobl am  larymau **carbon monocsid**.




Mae **carbon monocsid** yn nwy sy'n cael ei gynhyrchu pan fydd tanwydd fel nwy, olew a glo yn cael eu llosgi. Mae'n gallu bod yn beryglus pan nad ydy e'n cael ei reoli.



Rydyn ni yn llosgi tanwydd fel nwy, olew a glo pan fyddwn ni yn coginio neu'n defnyddio lleoedd tân gartref.




Rydych chi'n gallu darllen mwy am yr ymgynghoriad hwn yma.




Mae'r adroddiad yma am y prif bethau mae pobl wedi ei ddweud yn yr ymgynghoriad hwn.

# Beth mae pobl wedi ei ddweud

## Cwestiwn 1

**Fe wnaethon ni ofyn oedd pobl yn cytuno y dylai'r gyfraith ddweud bod yn rhaid i bob cartref gael larwm carbon monocsid os ydyn nhw'n gosod offer sy'n defnyddio:**

- **unrhyw olew**
- **unrhyw nwy**
- **neu unrhyw danwydd solet fel pren**



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud ie.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn gallu gweld bod hyn yn cadw pobl yn fwy diogel.




Roedd rhai pobl yn meddwl y dylai unrhyw newidiadau gyd-fynd â deddfau eraill.



Roedd rhai pobl yn poeni beth fyddai'n digwydd os nad oedden nhw yn dilyn y gyfraith.



**Mewn ymateb rydyn ni yn dweud y byddai'r rheolau newydd ond yn berthnasol wrth wneud gwaith adeiladu. Er enghraifft, gosod boeler newydd.**

# Mannau eraill



Fe wnaethon ni ofyn a  ddylai larymau **carbon monocsid** fod mewn mannau fel garejys neu atigau.



Weithiau mae boeleri mewn mannau fel hyn. Ond efallai na fydd pobl yn treulio amser ynddyn nhw.

## Cwestiwn 2

**Fe wnaethon ni ofyn a ddylai mannau fel hyn hefyd gael eu cynnwys yn y gyfraith yma.**



Roedd gan bobl wahanol feddyliau ar hyn.




Fe wnaeth nifer cyfartal o bobl ddweud ie a na.



Doedd y gweddill ddim yn siŵr  neu heb ateb.



Fe wnaeth rhai pobl ddweud y gallai **carbon monocsid** ollwng i'r prif dŷ o'r ardaloedd yma.



Fe wnaeth rhai pobl ddweud y gallai'r mannau yma gael eu troi'n ystafelloedd eraill. Er enghraifft, ystafell wely. Felly, fe ddylen nhw gael  larymau **carbon monocsid**.



Rydyn ni yn credu y dylen ni newid y canllawiau. Fe ddylai ddweud bod angen i chi osod larwm mewn unrhyw le sy'n gysylltiedig ag eiddo.

# Ystafelloedd gwely ac ystafelloedd byw



Weithiau mae offer yn gallu bod mewn 1 ystafell, ond  bod **ffliw** yn rhedeg trwy ystafell wely neu ystafell fyw.



Mae **ffliw** yn bibell o'r offer neu simnai.

## Cwestiwn 3

**Fe wnaethon ni ofyn a ddylai ystafelloedd gwely ac ystafelloedd byw sydd â ffliwiau ynddyn nhw gael eu cynnwys yn y gyfraith yma**




Roedd tua hanner y bobl yn dweud na.



Fe wnaeth y gweddill ddweud ie, ddim yn siŵr, neu heb ateb y cwestiwn.



Fe wnaeth rhai o’r bobl oedd yn cytuno ddweud y gallai **ffliw** ollwng.



Fe wnaeth rhai pobl ddweud y  dylid gosod larwm **carbon monocsid** mewn ystafelloedd sy’n cael eu defnyddio llawer.



**Rydyn ni yn credu y  dylai ystafelloedd gwely ac ystafelloedd byw gyda ffliw gael  larymau carbon monocsid. Mae hyn oherwydd bod pobl yn treulio llawer o amser yn yr ystafelloedd yma.**

# Poptai



Rydyn ni yn credu mai dim ond poptai gyda **ffliw** ddylai gael eu cynnwys yn y gyfraith yma. Mae hyn oherwydd nad ydy poptai fel arfer yn cael eu cynnwys mewn deddfau am adeiladau.

## Cwestiwn 4

**Fe wnaethon ni ofyn oedd pobl yn cytuno â hyn.**



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud ie.




Fe wnaeth rhai pobl ddweud y byddai'n helpu i gadw pobl yn ddiogel am gost isel.



**Fe fyddwn ni yn bwrw ymlaen â hyn.**



**Fe fydd angen defnyddio larymau carbon monocsid mwy, lle mae risg uwch i iechyd.**

# Pethau eraill i feddwl amdanyn nhw

## Larymau

Ar hyn o bryd mae larymau **carbon monocsid** i fod i:



- Dilyn safonau gan y Sefydliad Safonau Prydeinig.



- Cael batri sy’n para am oes y larwm.



- Neu gael eu pweru gan y prif gyflenwad trydan gyda gwifrau sefydlog.




Roedden ni eisiau gwybod oedd pobl yn credu y dylai’r rheolau yma aros yr un fath neu gael eu newid.

## Cwestiwn 5

**Fe wnaethon ni ofyn oes angen newid y math o larwm carbon monocsid sy'n cael ei ddefnyddio.**



Roedd tua 6 o bob 10 o bobl yn dweud ie.



Roedd gan bobl feddyliau gwahanol am y mathau o larymau sydd yn cael eu defnyddio.



Roedd rhai pobl yn credu y dylai'r gyfraith aros fel y mae.



Roedd rhai pobl yn siarad am larymau gyda batris sydd yn rhatach.



**Rydyn ni wedi penderfynu y dylai pobl gael dewis pa fath o larwm i'w gael.**

# Costau



Rydyn ni wedi meddwl am y gost i bob cartref gael larwm **carbon monocsid**.  Mae'n llawer o arian.



Ond fe fyddai'n werth y gost. Fe fydden ni yn arbed mwy nag yr ydyn ni yn ei wario yn y tymor hir.

## Cwestiwn 6

**Fe wnaethon ni ofyn i bobl ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl am y costau a'r manteision o gael larymau carbon monocsid.**



Roedd tua 1 o bob 3 o bobl yn cytuno â'r costau.



Doedd tua 1 o bob 3 ddim yn siŵr.



Fe wnaeth llawer o bobl ddweud bod larymau gyda batris yn rhatach.



Fe wnaeth rhai pobl ddweud eu bod eisiau gwybod faint o bobl yng Nghymru oedd wedi marw oherwydd **carbon monocsid**. Faint o bobl sydd wedi cael eu hanafu.



Rydyn ni'n credu fod y costau yn bwysig er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn ddiogel.



**Rydyn ni yn credu bod larymau gyda batris yn opsiwn da gan eu bod yn rhatach.**

## Cwestiwn 7

**Fe wnaethon ni ofyn oedd unrhyw beth arall roedd pobl eisiau ei ddweud.**



Fe wnaeth rhywun ddweud y dylai pobl gael eu dysgu mwy am beryglon **carbon monocsid**.




Roedd rhywun yn meddwl na ddylai'r larymau gael eu gwneud yn gyfraith mewn cartrefi preifat.



Fe fyddai unrhyw newidiadau sydd yn cael eu gwneud yn cael eu gwneud dim ond mewn cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu. A lle mae newidiadau mawr yn cael eu gwneud i gartrefi presennol.

## Cwestiwn 8

**Fe wnaethon ni ofyn oedd y cynlluniau yma yn gallu cael unrhyw effaith dda neu ddrwg ar y Gymraeg?**

**A sut rydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn ghfartal gyda'r Saesneg.**



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl na fyddai yna unrhyw effeithiau drwg ar y Gymraeg.




Fe wnaeth rhywun ddweud y dylai gwybodaeth fod ar gael mewn ieithoedd gwahanol ac yn hawdd ei ddeall.

## Cwestiwn 9

**Fe wnaethon ni ofyn sut roedd newid y cynlluniau yn gallu digwydd i wneud yn siŵr bod mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.**




Fe wnaeth pobl ddweud y dylai pob canllaw fod ar gael yn Gymraeg.




Fe wnaeth rhywun ddweud y dylai gwybodaeth fod ar gael mewn ieithoedd eraill hefyd.




Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn  rheolau o'r enw Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn deg gyda'r Saesneg.

# Beth fydd yn digwydd nesaf




Fe fydd y rheolau a'r canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi yn 2024.

# Geiriau Anodd

### Carbon monocsid

Dyma nwy sy’n cael ei gynhyrchu pan mae tanwydd fel nwy, olew a glo yn cael eu llosgi. Mae’n gallu bod yn beryglus pan nad ydy e’n cael ei reoli.